



Beth fyddaf yn ei ddysgu?

Bydd y cwrs hwn yn eich helpu i ddysgu:

- Am y mathau o swyddi a chwmnïau y medrech weithio ynddynt a sut brofiad fyddai i weithio yn y diwydiant gwallt a harddwch.
- Sut i liwio gwallt a rhoi “perm” (**bydd disgyblion yn lliwio gwallt ei gilydd gyda lliw dros dro**), rhoi colur sylfaenol, gwneud triniaeth dwylo sylfaenol a sut i gadw ardal waith yn lân, taclus a diogel.
- Am ddyletswyddau salon sylfaenol, eich ymddangosiad personol a'ch agwedd at waith ac arian.

Sut fyddaf yn dysgu? Mae'r cwrs yn cael ei ddysgu ar safle Coleg Menai ym Mangor am 3 awr yr wythnos ym Mlwyddyn 10 ac 11 ac mae cludiant ar gael o ac yn ôl i'ch ysgol. Mae'r cwrs yn gymysgedd o dasgau ystafell ddosbarth ac ymarferol. Byddwch yn cael cyfle i baratoi ac ymarfer eich sgiliau cyn i chi gael eich asesu, fel eich bod yn gwybod a deall yr hyn y byddwch yn gorfod ei wneud.

Beth fyddaf ei angen? Bydd gofyn i ddysgwyr ddarparu dillad ac esgidiau salon addas – esgidiau llawn, sgert neu drowsus du a thop gwyn plaen, gwisgo y lleiafswm o emwaith a gwallt hir wedi ei glymu yn ôl.

Sut fyddaf yn cael fy asesu? Byddwch yn cynhyrchu gwaith cwrs a asesir yn bennaf gan y tiwtor cwrs. Ar ddiwedd y cwrs, byddwch yn sefyll arholiad aml ddewis ar lein a fydd yn profi eich gwybodaeth o'r gwaith.

Beth sy'n digwydd ar ôl y cwrs hwn? Ar ôl Blwyddyn 11, gallwch fynd ymlaen i Ddiploma Lefel 2 City and Guilds mewn Trin Gwallt neu Therapi Harddwch neu Brentisiaeth Fodern Sylfaenol Lefel 2. Ar ôl hyn i gyd, byddwch wedi eich paratoi yn dda ar gyfer gwaith a/neu ddechrau prentisiaeth yn y diwydiant gwallt a harddwch. Ond, os nad ydych yn ffansio parhau gyda gwallt a harddwch, gallwch ddewis cymwysterau addas eraill yn dibynnu ar yr hyn yr ydych eisiau edrych arno nesaf. Bydd eich ymgynghorydd gyrfau yn medru eich helpu gydag eich dewisiadau pan adewch yr ysgol.

Syniadau am Swyddi!

- Triniwr Gwallt
- Therapydd Harddwch
- Therapydd Amgen

Eisiau gwybod mwy? I ddarganfod mwy am y cwrs hwn, dylech ymweld â'r dudalen we ganlynol:

<http://www.cityandguilds.com/Courses-and-Qualifications/hairdressing/hairdressing/3001-hairdressing-and-beauty-therapy>

Neu cysylltwch â: www.gyrfacymru.com